**Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**
—
**Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDiwylliant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDiwylliant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCulture@senedd.wales
senedd.wales/SeneddCulture
0300 200 6565

Lesley Griffiths AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru

21 Mai 2024

## Cyngor Llyfrau Cymru

Annwyl Lesley

Yn ystod yr wythnosau diwethaf, rydym wedi cael **nifer o eitemau o ohebiaeth** ynghylch y cyllid ar gyfer cylchgronau sy'n cael ei ddosbarthu gan Gyngor Llyfrau Cymru.

Rydym eisoes wedi **ysgrifennu** at y Cyngor Llyfrau i holi ynghylch y broses o wneud penderfyniadau a ddilynwyd wrth ddyfarnu tendrau ar gyfer cylchgronau cyfrwng Saesneg. Pryderwn fod y materion a godwyd gyda ni yn deillio o ddiffyg cyllid digonol i'r Cyngor Llyfrau.

Fel y nodwyd yn yr **erthygl olygyddol yn rhifyn diweddaraf cylchgrawn *Planet*** (a'r rhifyn olaf am y tro), bu gostyngiadau olynol yn y grant craidd a roddwyd i'r cylchgrawn hwnnw, a chylchgronau eraill, gan y Cyngor Llyfrau, yn mynd yn ôl dros nifer o flynyddoedd. Mae'r erthygl olygyddol yn gosod her i'r Senedd a Llywodraeth Cymru i sicrhau cyllid digonol i hyrwyddo iechyd y cyfryngau yng Nghymru er mwyn iddynt allu dwyn y bobl sydd mewn grym i gyfrif.

Fel y gwyddoch, mae gostyngiadau mewn cyllidebau wedi cael effaith ddinistriol ar sector y celfyddydau a diwylliant. Yng ngoleuni'r gostyngiadau hyn yn y gyllideb, hoffem wybod:

- Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael gyda Chyngor Llyfrau Cymru am y cyllid sydd ei angen arno wrth symud ymlaen.
- Pa ystyriaeth y mae Llywodraeth Cymru wedi'i rhoi i ddarparu cymorth ychwanegol i Gyngor Llyfrau Cymru, y tu hwnt i'r hyn a ddarparwyd gan Gymru Greadigol yn 2024-25.

- Pa ystyriaeth y mae Llywodraeth Cymru wedi'i rhoi i sicrhau bod digon o gymorth ariannol ar gael i gefnogi newyddiaduraeth mewn cylchgronau yng Nghymru.

Byddwn yn croesawu ymateb gennych erbyn 19 Mehefin 2024 fan bellaf.

Yn gywir,



**Delyth Jewell AS**
**Cadeirydd y Pwyllgor**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.